Cyngor Cymuned Cwm Cadnant.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd y Plwyf, Llandegfan, Nos FERCHER, 25ain MEDI 2019.

COFNOD:

1786. PRESENNOL:
Cynghorydd Mr Idris Alan Jones (Cadeirydd), Mrs Nia Wyn Foulkes, Ms Joan Kirkham, Mr Tom Cooke, Mr Eurfryn Davies, Mr Gareth Griffiths, Mr John Griffiths, Mr Alun Roberts a Mr J Alun Foulkes (Clerc).
Hefyd Cynghorydd Sirol Mr Carwyn Jones.

1787. YMDDIHEURIADAU:
Cynghorydd Mrs Jean Davidson, Mrs Nia Wyn Jones & Mr John W Griffith.

1788. CROESO.

1788.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng Idris Alan Jones.

1788.2 Llongyfarchwyd Cynghorydd Nia Wyn Jones a'r teulu yn dilyn genedigaeth **Leusa**. Gofynwyd aelodau drefnu anrheg bach iddi ar rhan y Cyngor Cymuned.

1789. DATGAN DIDDORDEB PERSONOL / RHAGFARNOL.

1789.1 Nid oedd neb yn datgan unrhyw diddordeb.

1790 DERBYN COFNODION PWYLLGOR LLAWN MIS GORFFENNAF 2019.

1790.1 Cynnig (AR) / Eilio (NF) ac fe derbyniwyd ac arwyddwyd yn gywir gan y Cadeirydd.

1791. MATERION YN CODI O'R CYFARFODYDD BLAENOROL.

1791.1 **Cynllun Arfaethedig Lliniaru Llifogydd Llansadwrn** – dywedodd y Clerc fod yno oedi yn cychwyn y cynllun oherwydd rhesymau cyfreithiol ond gobeithio gwelir popeth yn cychwyn cyn y cyfarfod nesaf.

1792. MATERION HEDDLU.

1792.1 **Ymddygiad Gwrth Cymdeithasol –** yn dilyn sawl digwyddiad difrifol ym mhentref Llandegfan yn ystod yr Haf ac sydd yn parhau, roedd y Cynghorydd Sirol Carwyn Jones wedi cysylltu gyda'r Clerc er mwyn adrodd yn llawn i'r Cyngor a'r aelodau ac fod angen sylw brys. Gan fod rhai o'r cwynion roedd wedi ei dderbyn gan y cyhoedd o ymddygiad brawychus, rhoddwyd yr aelodau yr hawl iddo cysylltu gyda'r Heddlu ac ymestyn gwahoddiad iddynt mynychu'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned.

1793. MATERION Y NEUADD.

1793.1 **Taflunydd Newydd** – cadarnhad gan y Cadeirydd fod angen Cwmni Mad Sound & Lighting symud ymlaen gyda **gosod y taflunydd newydd cyn gynted a phosib.**

1793.2 **Drws Tân & Ramp Allanol Neuadd y Plwyf –** cadarnhad fod y gwaith wedi ei orffen ac roedd aelodau yn canmol y gwaith oedd wedi ei wneud.

1793.3 **Gwaith Tacluso Wal Allanol Mynedfa Neuadd y Plwyf** – disgwylir fod y gwaith wedi ei orffen cyn diwedd yr wythnos (27/9/2019).

1793.4 **Gwaith Glanhau Llawr y Cyntedd & Prif Ystafell** – roedd y Clerc wedi cysylltu gyda cwmni Menai Cleaning Services yn gofyn iddynt ymgymeryd y gwaith (£350). Cymeradwyd yr aelodau gweithred y Clerc.

1793.5 **Adroddiad Rhestr Cynnal & Chadw** – dywedodd Cynghorydd Nia Foulkes fod ganddi rhestr o eitemau sydd wedi ei wneud ac sydd angen sylw ac fe benderfynwyd trefnu yn llawn yng nghyfarfod nesaf o Is-Bwyllgor y Neuadd.

1793.6 **Ail Agor y Neuadd** – cadarnhawyd y bydd y Neuadd yn ail-agor ar Ddydd Llun, 30ain Medi 2019.

1793.7 **Cadeiriau Newydd i'r Neuadd** – dywedodd y Clerc fod angen i'r aelodau ystyried prynu cadeiriau newydd yn lle y rhai presennol ac dylai hyn golygu gost odditeu £4,000/£5,000. Dywedodd y gall y Neuadd wneud cais trwy Ymddiriedolaeth Elusennol y Cyngor Sir ac fe gynigiodd AR ac eilwyd gan NF y dylai symud ymlaen cyn gynted a phosib. Unwaith ac os bydd y cais yn llwyddiannus, dylai ystyried cynnig rhodd y cadeiriau i'r Ysgol y pentref ac unrhyw mudiad arall gall wneud elw ohonynt.

1793.8 **Dyddiad Nesaf Cyfarfod Is-Bwyllgor y Neuadd** – 5 Tachwedd 2019 am 7:00yh.

1794. MATERION CAEAU CHWARAE.

1794.1 **Offer Newydd Cae Chwarae Llandegfan –** roedd y Clerc am gysylltu gyda Cwmni Sunshine Gym unwaith eto er mwyn darganfod dyddiad gosod yr offer.

1794.2 **Mat Offer See-Saw, Llandegfan** – dim newid yn y sefyllfa - **y Clerc i gysylltu gyda Cwmni G L Jones, Bethesda unwaith eto er mwyn ei ddatrys.**

1794.3 **Torri Gwrychod Cae Chwarae Llandegfan –** roedd y Clerc wedi archebu Mr Keith Owen i ymgymeryd y gwaith yma cyn gynted a phosib.

1794.4 **Torri Coed Cae Chwarae Llansadwrn** – dywedodd Cynghorydd Sirol Carwyn Jones fod DAU goeden yn y Cae wedi marw ac angen ei dorri ac fe rhanwyd tystiolaeth. CYTUNWYD a gofyn i'r Clerc wneud trefniadau. Trafodwyd y posiblrwydd o ail-blannu coed newydd yn y Gwanwyn.

1795. MATERION LLWYBRAU.

1795.1 **Llwybr ger Pennant yn arwain at yr Hen Felin** – darllenwyd llythyr wedi ei dderbyn oddiwrth Mrs Jean Williams, Pennant, Llandegfan gyda'i chynnig i'r Cyngor Sir o wyro mynedfa'r llwybr ger Hen Bont Cadnant ond roedd wedi diwygio'r cynnig ar sail rhesymau cyfreithiol a gall elwa'r Cyngor Sir, y Cyngor Cymuned a gwneud y llwybr yn fwy ddiogel. Ar ol ystyried y gwybodaeth i law, roedd aelodau o'r Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cynnig

1795.2 **Cadarnhawyd Gorchymyn y Cyngor Sir fod Llwybr Rhif 43 o amgylch Tŷ Rhos, Llansadwrn wedi ei wyro.**

1795.3 **Gordyfiant Llwybrau** – dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn adroddiad oddiwrth Mr Keith Owen fod angen i'r Cyngor Cymuned dwyn sylw at berchnogion tirfeddiannwyr ar hyd llwybrau rhif 13 (Ger Hen Ysgol yn arwain at Mill Lodge), 18 (Pilot Path) a 19 (Ferry Path), fod angen iddynt torri ei gordyfiant.

1796. MATERION PRIFFYRDD.

1796.1 **Torri Gwrychod Lonydd Gwledig –** dangoswyd pryder am y gordyfiant ac fod angen sylw brys o dorri gwrychod ger Hafoty, Llansadwrn a Lon Pedair Groeslon o Garaj Henffordd i Eglwys Llandegfan cyn gynted a phosib a gofyn i'r Clerc anfon llythyr i'r Cyngor Sir.

1796.2 **Torri Lon Ty Newydd –** angen adroddiad pellach er mwyn darganfod os oes angen sylw brys o dorri'r gordyfiant ar hyd y lon yma hefyd.

1796.3 **Draeniau Lon yr Eglwys** – nodwyd fod angen sylw i'r draeniau, yn enwedig tu allan i fynedfa'r Neuadd am rhesymau arogl drwg

1796.4 **Culfan Eglwys Llandegfan** – nodi y bydd Scottish Power yn ymgymeryd gwaith cynnal a chadw ar y safle.

1796.5 **Cais Cysgodfan Bws yn Llansadwrn** – roedd Cynghorydd Sirol Carwyn Jones wedi gofyn i'r Clerc godi'r mater ar y rhaglen ac fe cafwyd adroddiad a rhesymau am y cais. Ar ol ystyried yr holl wybodaeth yn ofalus, teimlad yr aelodau nad oedd sail i'r cais ac fe gwrthodwyd

1796.6 **Gorchymyn Gwahardd Traffig – Lon Ty Newydd** – darllenodd y Clerc y Rhybudd a dderbynniodd oddiwrth y Cyngor Sir yn ein hysbysu fod Lon Ty Newydd ar gau am oddieutu 1 mis oherwydd gwaith trydanol sydd angen ei wneud.

1796.7 **Tipio Anghyfreithlon –** nodwyd fod achlysur tipio anghyfreithlon wedi bodoli ar hyd Lon Ganol. Dywedodd y Clerc y dylai unrhyw Gynghorwr adrodd y sefyllfa yn syth ac uniongyrchiol i'r Cyngor Sir.

1797. SUL Y COFIO.

1797.1 Dywedodd Cynghorydd Nia Foulkes fod trefniadau ar gyfer Sul y Cofio (10fed Dachwedd 2019) mewn llaw ac fe ddiolchodd y Cadeirydd iddi.

1797.2 Gofynwyd Cynghorydd Nia Foulkes a oes posib i'r Cyngor ystyried gwario at wella ymddangosiad y Gofeb erbyn flwyddyn nesaf ar gyfer dathlu diwedd yr Ail Rhyfel. Cytunwyd yr aelodau a gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau ar gyfer gwariant cyllid y flwyddyn nesaf 2020/2021 trwy cysylltu gyda Ymddiriedolaeth Gofeb Rhyfel.

1798. MATERION CYLLID & GWEINYDDU.

1798.1 Cafwyd adroddiad llawn y Clerc o Daliadau a Derbyniadau Cyfrifon y Cyngor a'r Neuadd am Mis Gorffennaf & Awst 2019 ac fe arwyddwyd yr adroddiad gan y Cadeirydd gan cynnwys cysoniad a datganiad Banc y Cyngor.

1798.2 **Trefnu Cyfarfod Is-Bwyllgor Cyllid –** trafod yn y cyfarfod nesaf gyda bwriad o drefnu cyfarfod diwedd Mis Hydref 2019.

1798.3 **Hysbysfwrdd ger Siop Maldwyn** – dywedodd y Clerc fod rhaid i'r Cyngor ystyried ail-leoli'r Hysbysfwrdd a trafod yn bellach yn y cyfarfod nesaf.

1799. CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

1799.1 Cais Cynllunio Llawn Addasu & Ehangu yn Stanton, Glyngarth, Porthaethwy/Menai Bridge – Rhif Cais: HHP/2019/189.
Penderfyniad: DIM SYLWADAU.

1799.2 Cais Cynllunio Llawn Addasu & Ehangu yn Tegfan, Llandegfan – Rhif Cais: HHP/2019/186.
Penderfyniad: DIM SYLWADAU.

1799.3 Cais Cynllunio Llawn - Newid Annedd Presennol i DDAU yn Nyth y Dryw, Lon Ganol, Llandegfan – Rhif Cais: FPL/2019/194.
Penderfyniad: DIM SYLWADAU.

1799.4 Cais Cynllunio Llawn Dymchwel y Cwt Cychod presennol ynghyd a Codi Annedd Newydd yn Tan y Ffordd, Glyn Garth, Porthaethwy/ Menai Bridge Rhif Cais – FPL/2019/221.

Penderfyniad: Nid oedd y Cyngor yn cefnogi'r cais codi annedd newydd oherwydd ei leoliad mewn AHNE ac oherwydd problemau tirlithriad cyfagos. Serch hynny, roedd y Cyngor yn ymwybodol fod y cais wedi ei DYNNU'N nol.

1799.5 **Cais Cynllunio Llawn – Dymchwel yr Annedd a Garej presennol ynghyd a Codi Annedd & Garej newydd yn eu lle a hefyd creu mynedfa newydd, gosod sustem trin carthffosiaeth a gwaith cysylltiedig yn Ynys y Big, Porthaethwy/Menai Bridge – Rhif Cais: FPL/2019/198.**

PENDERFYNIAD: Nid oedd y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cais oherwydd maint y datblygiad mewn AHNE a sensitif yn ogystal nad oedd arlowg bywyd gwyllt wedi ei wneud ac ystyried fod coed o dan rheolaeth gorchymyn cadw coed a teimlad cryf nad oedd y datblygiad yn ufuddhau polisiau cynllunio presennol y Cynllun Datblygu Lleol.

1799.6 **Cais Cynllunio Llawn – Addasu & Ehangu yn 29 Mill Lodge, Llandegfan (Cais Diwygiedig/Revised Application) – Rhif Cais: HHP/2019/198.**
Penderfyniad: DIM SYLWADAU.

1799.7 **Cais Adran 73 Diwygio Amod (02) Caniatad Cynllunio Rhif HHP/2018/33 (Addasu & Ehangu) er mwyn diwygio dyluniad yn Gweldir, Llandegfan – Rhif Cais VAR/2019/62.**
Penderfyniad: DIM SYLWADAU.

1800. GOHEBIAETH.

1800.1 **Cyfnod Ymgynghori Caban BT** – dywedodd Cynghorydd Sirol Carwyn Jones nad oedd y Kiosk yn cael ei ddefnyddio a gofyn i'r Cyngor Cymuned gosod diffibriliwr newydd yn ei le. Cynigiodd Cynghorydd Nia Foulkes y dylai'r Cyngor Cymuned symud ymlaen gyda'r syniad a defnyddio arian disgwylir gan y Cyngor Sir ar ôl iddynt orffen y cynllun lliniaru llifogydd ger y Cae Chwarae tuag a costau prynnu yr offer. **CYTUNWYD YR AELODAU YN UNFRYDOL.**

1800.2 **Pencampwyr Iaith Gymraeg –** penderfynwyd yr aelodau enwebu Cynghorydd Nia Wyn Jones i gynrychioli'r Cyngor.

1800.3 **Cofnodion Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref & Chymuned –** i'w ddosbarthu yn y cyfarfod nesaf.

1800.4 **Blaenrhaglen Gwaith y Cyngor Sir –** er gwybodaeth yn unig.

1800.5 **Arolwg Trefniadau Etholiadol ar gyfer Ynys Mon –** disgwylir gwybodaeth pellach erbyn y cyfarfod nesaf.

1801. ADRODDIADAU Y CYNGHORWYR SIROL.

1801.1 Angen cyfarfod ar y cyd gyda Cynghorau Llanddona a Llangoed er mwyn trafod Project Cwlwm Seiriol – i'w chynnal yn Llanddona. Y Cynghorydd Sirol Carwyn Jones i wneud y trefniadau.

1801.2 Adroddiad fod sefyllfa Cyllid yn y Cyngor Sir yn dynn iawn.

1801.3 Adroddiad Presennol ar Ad-drefnu Ysgolion ar yr Ynys,

1802. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – Nos Fawrth 15 HYDREF 2019.

1802.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod.
Clowyd y cyfarfod am 9:10yh.

Cwm Cadnant Community Council.

Minutes of the Monthly Meeting of the Council held in the Parish Hall, Llandegfan on Wednesday, 25th SEPTEMBER 2019.

MINUTE:

1786. **PRESENT were: Councillors Mr Idris Alan Jones (Chair), Mrs Nia Wyn Foulkes, Ms Joan Kirkham, Mr Tom Cooke, Mr Eurfryn Davies, Mr Gareth Griffiths, Mr John Griffiths, Mr Alun Roberts a Mr J Alun Foulkes (Clerk). Also in attendance: County Councilor Mr Carwyn Jones.**

1787. **APOLOGIES received from:**
Councillors Mrs Jean Davidson, Mrs Nia Wyn Jones & Mr John Wyn Griffith.

1788. **WELCOME.**

1788.1 **The Chairman, Cllr Idris Alan Jones, welcomed everyone to the meeting.**

1788.2 **Congratulations were extended to Councillor Nia Wyn Jones and the family following the birth of Leusa. Members requested the Clerk to arrange a small gift for her on behalf of the Community Council.**

1789. **DECLARATION OF PERSONAL / PREVIOUS INTEREST.**

1789.1 **No declarations of interest were made.**

1790. **TO RECEIVE MINUTES OF THE FULL COUNCIL JULY 2019.**

1790.1 **Proposed by (AR) / Seconded (NF) and duly accepted and signed by the Chairman.**

1791. **MATTERS ARISING FROM PREVIOUS MEETINGS.**

1791.1 **Llansadwrn Flood Alleviation Scheme - the Clerk informed the meeting that there had been a delay in the commencement of the scheme due to legal reasons but hopefully everything would start before the next meeting.**

1792. **POLICE ISSUES.**

1792.1 **Anti Social Behavior - following a number of serious incidents in the village of Llandegfan during the summer which are ongoing, County Councillor Carwyn Jones had contacted the Clerk and gave a full report to the Council and members and that urgent attention is required. As some of the complaints he had received from the public were of a frightening behaviour, Councillor Jones would contact the Police and invite them along to attend the next meeting of the Community Council.**

Sign..... ....

1793. PARISH HALL MATTERS.

1793.1 **New Projector - confirmation from the Chairman that Mad Sound & Lighting Company can now proceed with the installation of the new projector as soon as possible.**

1793.2 **Parish Hall Fire Door & Ramp - confirmation that the work had been completed and members praised the work that had been done.**

1793.3 **Exterior Wall Repairs to the Parish Hall Entrance - work is expected to be completed by the end of the week (27/9/2019).**

1793.4 **Foyer & Main Room Floor Cleaning - the Clerk had contacted Menai Cleaning Services asking them to undertake the work (£ 350). Members approved the Clerk's action.**

1793.5 **Maintenance List Report - Councillor Nia Foulkes stated that she had a list of items that had been done and needed attention and it was decided to arrange to discuss in full at the next meeting of the Parish Hall Sub Committee**

1793.6 **Reopening the Hall - it was confirmed that the Hall will now re-open on Monday, 30th September 2019.**

1793.7 **New Hall Chairs - the Clerk informed members the need to consider replacing the existing chairs and this should cost £ 4,000 / £ 5,000. He stated that the Hall could apply through the County Council Charitable Trust and AR proposed and NF seconded that it should proceed as soon as possible. Once, and if the application is successful, it should consider offering the gift of chairs to the village School and any other organization that can profit from their use.**

1793.8 **Next Date Hall Sub Committee Meeting - 5 November 2019 at 7:00 pm.**

1794. PLAYING FIELD ISSUES.

1794.1 **New Equipment Llandegfan Playground - Clerk to contact Sunshine Gym again to find out the date of installation.**

1794.2 **See-Saw Equipment Mat, Llandegfan - no change - Clerk to contact G L Jones & Company, Bethesda again for resolution.**

1794.3 **Llandegfan Playing Field Hedge Cutting - the Clerk had ordered Mr Keith Owen to undertake this work as soon as possible.**

1794.4 **Llansadwrn Playing Field Tree Felling - County Councillor Carwyn Jones stated that TWO trees in the Field needed to be felled and evidence was shared. It was AGREED to ask the Clerk to make arrangements. The possibility of replanting trees in the Spring was discussed.**

1795. FOOTPATH ISSUES.

1795.1 **Footpath near Pennant leading to the Old Mill - a letter was read from Mrs Jean Williams, Pennant, Llandegfan with her proposal to the County Council to divert the path entrance near the Cadnant Old Bridge but had amended the proposal for legal reasons and that this can financially benefit the County Council, the Community Council and make the path safer. Following consideration of the information received, members of the Community Council supported the proposal**

1795.2 **The County Council Order was confirmed that Route No. 43 around Ty Rhos, Llansadwrn had now been diverted.**

1795.3 **Paths Overgrown - the Clerk stated that he had received a report from Mr Keith Owen that the Community Council needed to draw attention to landowners whose properties ran alongside paths number 13 (Near Old School leading to Mill Lodge), 18 (Pilot Path) and 19 (Ferry Path), and that they need to cut the overgrowth on their side of the footpath.**

1796. HIGHWAYS ISSUES.

1796.1 **Rural Lane Hedge Cutting - concern was expressed over the overgrowth and urgent attention was needed to hedge cutting near Hafoty, Llansadwrn and the Four Crosses Lane from Henffordd Garage to Llandegfan Church as soon as possible and asked the Clerk to send a letter to the County Council .**

1796.2 **Ty Newydd Lane Cutting - further report required to find out if urgent attention is needed to cutting the overgrowth along this road as well.**

1796.3 **Drainage Along Lon yr Eglwys - it was noted that the drains needed attention, especially outside the entrance to the Hall following a report of bad odor**

1796.4 **Llandegfan Church Culvert - note that Scottish Power will be undertaking site maintenance.**

1796.5 **Llansadwrn Bus Shelter Application - County Councillor Carwyn Jones had asked the Clerk to raise the matter on the agenda and a report and reasons for the request was provided. After careful consideration of all the information, members felt that there was insufficient evidence to support the application and this was duly refused**

1796.6 **Traffic Prohibition Order - Lon Ty Newydd - the Clerk read out the Notice received from the County Council informing us that Lon Ty Newydd would be closed for approximately 1 month due to required electrical works.**

Sign..... ....

1796.7 **Fly Tipping - it was noted that a fly-tipping incident had recently occurred along Lon Ganol. The Clerk stated that any Councillor should report such situation immediately and directly to the County Council.**

1797. REMEMBRANCE SUNDAY.

1797.1 **Councillor Mrs Nia Foulkes reported that arrangements for Remembrance Sunday (10th November 2019) were in hand and she was duly thanked by the Chair.**

1797.2 **Councillor Nia Foulkes asked whether the Council should consider spending to improve the appearance of the Memorial by next year to commemorate the end of World War II. Members agreed and asked the Clerk to include in next year's funding expenditure 2020/2021 and also contact the War Memorial Trust for possible grant funding.**

1798. FINANCE & ADMINISTRATIVE ISSUES.

1798.1 **The Clerk gave a full report of the all Payments and Receipts for both the Council and Parish Hall Accounts for July & August 2019 and the Chairman signed the report including the reconciliation and the Councils' Bank statements.**

1798.2 **Arranging a Meeting of the Finance Sub-Committee - to discuss at the next meeting with a view to arranging a meeting at the end of October 2019.**

1798.3 **Notice Board near Maldwyn Store - the Clerk advised that the Council will need to consider relocating the Notice Board and to discuss the matter further at the next meeting.**

1799. NEW PLANNING APPLICATIONS.

1799.1 **Full Planning Application for Alterations & Extensions at Stanton, Glyngarth, Menai Bridge / Menai Bridge - Application No: HHP / 2019/189. Decision: NO OBSERVATIONS.**

1799.2 **Full Planning Application To Conversion & Expansions at Tegfan, Llandegfan - Application No: HHP / 2019/186. Decision: NO OBSERVATIONS.**

1799.3 **Full Planning Application - Conversion of an Existing Dwelling to TWO at Dyth y Dryw, Middle Lane, Llandegfan.**
Application No: FPL / 2019/194.
Decision: NO OBSERVATIONS.

1799.4 **Full Planning Application To Demolish Existing Boathouse and Erection of a New Dwelling at Tan y Ffordd, Glyn Garth, Menai Bridge.**
Application No - FPL / 2019/221.

Resolved: The Council did not support the proposal for the erection of a new dwelling due to its location in an AONB and due to adjacent landslide problems. However, the Council had been made aware that the application had been WITHDRAWN.

1799.5 **Full Planning Application - Demolition of Existing Dwelling and Garage together with the Erection of a New Dwelling & Garage and creation of new access, installation of sewerage treatment system and associated works at Ynys y Big, Menai Bridge .**
Application No: FPL / 2019 / 198.

RESOLUTION: The Community Council did not support the application due to the intrusive size of the development in a Sensitive Area and that AONB. No wildlife survey had been carried out and No consideration had been given to any of the trees were potentailly under the control of a tree preservation order. There was a strong feeling that the development did not comply with several policies under the current Local Development Plan.

1799.6 **Full Planning Application - Conversion & Extension at 29 Mill Lodge, Llandegfan (Revised Application) - Application No: HHP / 2019/198.**
Decision: NO OBSERVATIONS.

1799.7 **Section 73 Application Amending Condition (02) Planning Permission No. HHP / 2018/33 (Alteration & Expansion) to amend design at Gweldir, Llandegfan - Application No. VAR / 2019/62.**
Decision: NO OBSERVATIONS.

1800. CORRESPONDENCE.

1800.1 **BT Kiosk Consultation Period - County Councillor Carwyn Jones stated that the Kiosk was not being used and requested that the Community Council replace it with the installation of a defibrillator. Councillor Nia Foulkes proposed that the Community Council should move forward with the idea and use money expected from the County Council once they have completed the flood alleviation scheme near the Playing Field towards the cost of purchasing the equipment. THE MEMBERS UNANIMOUSLY AGREED.**

1800.2 **Welsh Language Champions - members resolved to nominate Councillor Nia Wyn Jones to represent the Council.**

1800.3 **Minutes of Town & Community Council Liaison Forum - to be circulated at the next meeting.**

1800.4 **County Council Forward Work Program - for information only.**

1800.5 **Electoral Arrangements Review for Anglesey - further information would be expected at the next meeting.**

1801. COUNTY COUNCILLORS REPORTS.

1801.1 **Need a joint meeting with Llanddona and Llangoed Councils to discuss the Cwlwm Seiriol Project - to be held in Llanddona. County Councillor Carwyn Jones to make arrangements.**

1801.2 **Report that the current finance situation in the County Council is very tight.**

1801.3 **Current Report on the Reorganization of Schools on the Island.**

1802. DATE OF NEXT MEETING - Tuesday 15 OCTOBER 2019.

1802.1 **The Chairman duly thanked members for attending the meeting. The meeting closed at 9:10 pm.**

Signed ..... CHAIR ....DATE.